Pwerau ar gyfer ymchwilio i gartelau troseddol

Papur ymgynghori

Ebrill 2003

Rhan o gyfres o bapurau ymgynghori ynglyn â sut y bydd darpariaethau Deddf Fenter 2002 yn gweithio yn ymarferol

OFT 505

CRYNODEB

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno canllawiau'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) sy'n esbonio sut y bydd yn arfer ei phwerau ar gyfer ymchwilio i'r tramgwydd cartel troseddol a gyflwynwyd o dan Ddeddf Fenter 2002 sydd i fod i ddod i rym ar 20 Mehefin 2003.

1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Fenter 2002 ('y Ddeddf Fenter') yn ei gwneud yn dramgwydd troseddol i unigolion gytuno'n anonest ag un neu ragor o bersonau eraill y byddai dau neu ragor o ymgymeriadau yn ymhel â threfniadau cartel gwaharddedig penodol, sef y rheini sy'n cynnwys gosod prisiau, rhannu'r farchnad, cyfyngu ar gynhyrchu neu gyflenwi a rigio cynigion. Mae'r tramgwydd yn gymwys i gytundebau anonest i wneud neu weithredu trefniadau o'r fath a hefyd i beri bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud neu eu gweithredu. Bydd y tramgwydd troseddol yn cael ei gyflawni ni waeth a fydd y cytundeb y daethpwyd iddo yn cael ei weithredu mewn gwirionedd gan yr ymgymeriadau neu beidio[1].

1.2 Bydd y tramgwydd cartel troseddol yn gweithredu ochr yn ochr â'r drefn bresennol sy'n gosod sancsiynau sifil ar ymgymeriadau sy'n torri'r gwaharddiad ar gytundebau gwrthgystadleuol yn Neddf Gystadleuaeth 1998 ('CA98')[2].

1.3 Dim ond i gytundebau rhwng ymgymeriadau sy'n gweithredu ar yr un lefel o'r gadwyn gyflenwi, a elwir cytundebau llorweddol, y mae'r tramgwydd cartel troseddol yn gymwys. Nid yw cytundebau fertigol sydd wedi'u bwriadu i weithredu rhwng ymgymeriadau ar lefelau gwahanol yn y gadwyn gyflenwi, er enghraifft rhwng gweithgynhyrchydd a dosbarthwr, neu rhwng dosbarthwr a manwerthwr, wedi'u cwmpasu gan y tramgwydd.

1.4 Mae'r Ddeddf Fenter yn rhoi pwerau i'r OFT i ymchwilio i unigolion sydd dan amheuaeth o fod wedi cyflawni'r tramgwydd cartel troseddol[3]. Mae'r pwerau hyn yn cael eu disgrifio yn rhan 3 o'r canllawiau hyn. Maent wedi'u cyfyngu i ymchwilio i'r tramgwydd troseddol yn unig ac i ryw raddau maent yn wahanol i'r pwerau ymchwilio sydd ar gael i'r OFT o dan CA98 yn yr ystyr eu bod wedi'u hanelu at unigolion. Pwerau ymchwilio

---

[1] Y Ddeddf Fenter, adrannau 188-89

[2] Ceir gwybodaeth bellach am waharddiad CA98 yn y canllawiau 'The Chapter I Prohibition', OFT 401, a gyhoeddwyd ym Mawrth 1999

[3] Y Ddeddf Fenter, adrannau 193-194

sifil yw'r pwerau sydd wedi'u nodi yn CA98 ac maent wedi'u hanelu yn erbyn ymgymeriadau[4]. Mae'r ffordd y mae'r OFT yn bwriadu defnyddio ei phwerau ymchwilio troseddol a sifil cyfochrog yn cael ei disgrifio yn rhan 4 o'r canllawiau hyn.

1.5 Mae'r Ddeddf Fenter hefyd yn rhoi pwer gwyliadwriaeth ymwthiol[5] ynghyd â'r pwer cysylltiedig i ymyrryd ag eiddo[6] ac mae'r rhain yn cael eu disgrifio yn rhan 5 o'r canllawiau.

1.6 Mae'r cyfyngiadau ar ddefnyddio pwerau ymchwilio'r OFT o dan y Ddeddf Fenter yn cael eu disgrifio yn rhan 6 ac mae'r tramgwyddau sy'n cael eu cyflawni gan berson sy'n methu â chydymffurfio pan gaiff y pwerau hyn eu harfer yn cael eu disgrifio yn rhan 7.

---

[4] Ceir gwybodaeth bellach am bwerau ymchwilio CA98 yn y canllawiau '*Powers of Investigation*', OFT 404, a gyhoeddwyd ym Mawrth 1999

[5] Y Ddeddf Fenter, adran 199

[6] Y Ddeddf Fenter, adran 200